**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: PWYLLGOR ARCHWILIO**

**ADRODDIAD 00-07 - A gyflwynwyd I'r Cynulliad Cenedlaethol ar y 1af Rhagfyr yn unol ag adran 102(1) Deddf Llywodraeth Cymru 1998**

# COLEG GWENT

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Iechyd Ariannol y Coleg a Materion Ariannu Ewropeaidd | 4 |
| Llywodraethu a Rheoli'r Coleg | 7 |
| Rheolaeth Ariannol y Coleg | 10 |
| Monitro Allanol y Coleg a Materion Atebolrwydd | 13 |
| Rhai o'r Goblygiadau Ehangach ar gyfer y Sector Addysg Bellach yng Nghymru yn Sgil y Digwyddiadau yng Ngholeg Gwent | 17 |
| Argymhellion | 20 |
| Sylwadau i Gloi | 22 |


**ATODIADAU**


Atodiad A: Trafodion Perthnasol y Pwyllgor - Cofnodion o Dystiolaeth (dydd Iau 15 Mehefin 2000)

Atodiad B: Llythyr dyddiedig 5 Gorffennaf 2000 oddi wrth y Cyngor Cyllido

Atodiad C: Llythyr dyddiedig 2 Awst 2000 oddi wrth Mr David Mason, Pennaeth Coleg Gwent

Atodiad Ch: Y Pwyllgor Archwilio

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â Choleg Gwent (a alwyd tan 1 Ionawr 2000 yn Goleg Trydyddol Gwent), sef y sefydliad addysg bellach mwyaf yng Nghymru gyda rhyw 28,000 o fyfyrwyr.[1] Yn Ebrill 1997, ysgrifennodd chwe Aelod Seneddol o Dde Cymru at y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol yn codi pryderon ynghylch costau ymarfer ailstrwythuro rheoli a wnaed gan y Coleg a'r swyddi a gollwyd yn sgil hynny.[2] Yn sgil yr ailstrwythuro a weithredwyd yn ystod 1996 cafwyd cynnydd mewn swyddi rheoli yn y Coleg o 56 i 118. Ar yr un pryd cyflwynodd y Coleg hefyd newidiadau o bwys i dâl ac amodau'r staff addysgu. Achosodd y ddau ffactor broblemau ariannol o bwys yn y Coleg gan beri iddo wneud diffyg gweithredu o £6.8 miliwn yn y flwyddyn academaidd 1996-97.[3]

2. Yn Hydref 1997 codwyd pryderon hefyd ynghylch gweithgareddau Siop Hyfforddiant y Coleg, Uned ar wahân a oedd ymdrin â hyfforddiant y Coleg a gefnogir gyda chymorth arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Cyflawnodd archwilwyr mewnol y Coleg ar y pryd adolygiad manwl o'r Siop Hyfforddiant a dod o hyd i nifer o fethiannau difrifol yn y fordd yr oedd y Cyngor yn rheoli ac yn gorchwylio'r Uned. Hefyd yr oedd yna gwestiynau o afreoleidd-dra ac amhriodoldeb yn y Siop Hyfforddiant.[4]

3. Ar ddiwedd 1997, a 1998, gwnaeth swyddogion o'r Adran Addysg a Chyflogaeth a'r Comisiwn Ewropeaidd adolygiad o hawliadau'r Coleg am arian Ewropeaidd. Cawsant nad oedd y Coleg yn gallu dangos o'i gofnodion fod y cronfeydd a gawsai gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi'u defnyddio yn gywir. Yng ngoleuni'r adolygiad hwn ataliwyd holl daliadau arian Ewropeaidd i'r Coleg, rhoes y Coleg derfyn ar y Siop Hyfforddiant a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw gynlluniau hyfforddiant a ariennir gan Ewrop.[5]

---

[1] Ail Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) 1999-2000 HC102 paragraff 1
[2] Adroddiad y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol (C&AG) ar Reolaeth Ariannol yng Ngholeg Trydyddol Gwent HC 253 1998-99 Crynodeb Gweithredol paragraff 1
[3] Adroddiad PAC paragraff 2
[4] Adroddiad PAC paragraff 3
[5] Adroddiad PAC paragraffau 12 -14

4. Ymddiswyddodd y Pennaeth adeg y problemau ariannol yn y Coleg - Mrs Sue Parker - yng Ngorffennaf 1997. Penodwyd Mr David Mason – y Pennaeth presennol - o 1 Ebrill 1998. Ers 1998, mae pawb ond un o dîm rheolwyr hŷn y Coleg a oedd yn eu swyddi adeg y digwyddiadau ym 1996 a 1997 wedi ymadael â'r Coleg. Ac eithrio un o'r llywodraethwyr staff, nid oes yr un o'r llywodraethwyr a oedd yn eu swydd adeg y problemau yn dal yn eu swydd.[6]

5. Cyhoeddodd y Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad ym Mawrth 1999 o dan y teitl *Financial Management and Governance at Gwent Tertiary College* (HC 253 1998-99) a ystyriwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym Mehefin 1999. Arweiniodd eu hadroddiad at gyhoeddi Cofnod gan y Trysorlys (ymateb y Llywodraeth i adroddiad PAC) ym Mawrth 2000.[7] Gwnaeth hwn yn glir fod cyfrifoldebau'r hen Swyddfa Gymreig wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad ac mai mater i'r Pwyllgor Archwilio oedd monitro'r mesurau a gymerwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru a chan y Cynulliad. Yn wyneb adroddiad beirniadol iawn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r pryderon a oedd gan y Pwyllgor Archwilio ynghylch rhai o'r ymatebion yng Nghofnod y Trysorlys, cawsom dystiolaeth ym Mehefin 2000 oddi wrth swyddogion yn y Cynulliad Cenedlaethol a Chyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru ( y Cyngor Cyllido) a Phennaeth Coleg Gwent. Mae ein hadroddiad yn bwrw ymlaen â llawer o'r pryderon a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ac mae'n amlinellu'r sefyllfa bresennol yn y Coleg ar y materion canlynol:

- iechyd ariannol presennol y Coleg a materion ariannu Ewropeaidd;
- llywodraethu a rheoli'r Coleg;
- rheolaeth ariannol y Coleg;
- monitro allanol y Coleg a materion atebolrwydd; a
- rhai o'r goblygiadau ehangach ar gyfer y sector addysg bellach yng Nghymru yn sgil y digwyddiadau yng Ngwent.

---

[6] Crynodeb Gweithredol Adroddiad C&AG paragraffau 13 a 14

[7] Gorch 4656 Cofnod y Trysorlys ar yr Adroddiad Cyntaf i'r Trydydd Adroddiad oddi wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 1999-200

## IECHYD ARIANNOL Y COLEG A MATERION ARIANNU EWROPEAIDD

### Iechyd ariannol y Coleg

6. O'i ymgorffori ym 1993 tan yr ailstrwythuro rheolaeth a'r newidiadau yn nhâl ac amodau'r staff addysgu a ddigwyddodd ym 1996, yr oedd y Coleg yn gyson wedi sicrhau gwargedau ar ei gyfrif incwm a gwariant. Yn y flwyddyn academaidd 1996-97, gwnaeth y Coleg ddiffyg gweithredu o £6.8 miliwn. Yn wyneb yr argyfwng ariannol hwn cymerodd y Coleg gamau cywiro ac fe lwyddodd i leihau'r diffyg yn y flwyddyn ganlynol i £1 miliwn.[8] Dywedodd Cofnod y Trysorlys i'r Coleg wneud diffyg gweithredu o £0.5 miliwn yn y flwyddyn academaidd 1998-99.[9] Dywedodd Pennaeth y Coleg wrthym fod y Coleg yn rhag-weld y bydd yn gwneud gwarged gweithredu bach o ryw £188,000 yn y flwyddyn academaidd bresennol hyd at 31 Gorffennaf 2000 yn erbyn cyllideb wreiddiol i dorri costau . Ychwanegodd fod gan y Coleg nod strategol dros y blynyddoedd i ddod o gyflwyno gwarged gweithredu o ryw £1 miliwn y flwyddyn.[10] Yr ydym yn falch ei bod yn ymddangos bod y Coleg wedi cymryd cam cadarnhaol o ran ei ymgais i wella ei sefyllfa ariannol. Er hynny, yr ydym yn disgwyl i'r Coleg gynnal ei sefyllfa ariannol drwy barhau i fod yn wyliadwrus yn ei reolaeth ariannol.

### Materion ariannu Ewropeaidd

7. Mae adferiad ariannol y Coleg yn gorchuddio ei bod yn ofynnol i'r Coleg ad-dalu i'r Undeb Ewropeaidd y cronfeydd a gafodd oddi wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop ond na wnaeth eu defnyddio yn gywir. Cadarnhaodd y Pennaeth wedyn i ni mewn nodyn mai £2.82 miliwn yw'r swm y bydd rhaid i'r Coleg ei ad-dalu. Mae'r Adran Addysg a Chyflogaeth, sy'n goruchwylio'r ffordd y mae'r arian hwn yn cael ei weinyddu yn y Deyrnas Unedig, wedi cytuno y gall y Coleg ad-dalu'r swm hwn mewn tri rhandaliad cyfartal ar ddiwrnod olaf pob un o'r blynyddoedd academaidd nesaf gan ddechrau yng Ngorffennaf 2001.[11]

---
[8] Adroddiad PAC paragraff 9
[9] Gorch 4656 paragraff 22
[10] C64
[11] Llythyr oddi wrth Bennaeth Coleg Gwent 2 Awst 2000

8. Mae’r Pennaeth yn ffyddiog na fydd yr ad-daliad hwn yn effeithio yn ddirfawr ar fusnes beunyddiol y Coleg. Ni fydd yn golygu y bydd angen cau cyrsiau neu y bydd staff yn colli eu swyddi. Bwriad y Coleg oedd dod o hyd i’r arian drwy leihau bron £1 miliwn ar ei raglen buddsoddi cyfalaf arfaethedig ym mhob un o’r tair blynedd nesaf a fydd yn lleihau gwariant cyfalaf yn y flwyddyn academaidd bresennol o ryw £7 miliwn i ryw £6 miliwn.[12]

9. Mae’r rhaglen buddsoddi cyfalaf bresennol yn rhoi blaenoriaeth uchel i gynnal-a-chadw, maes y cwtogwyd yn ddirfawr arno pan oedd y Coleg mewn argyfwng ariannol. Mae’r Coleg wedi comisiynu arolwg o gyflwr ei ystad ac o ganlyniad dyrannwyd £2 miliwn o’r gwariant cyfalaf o £6 miliwn ar gyfer 2000-2001 a grybwyllwyd uchod i gynnal-a-chadw’r ystad bresennol.[13] Yn ogystal, mae’r Coleg hefyd yn bwriadu gwario dros £1 miliwn o wariant refeniw ar gynnal-a-chadw.[14] Dywedodd y Pennaeth wrthym yr hoffai’r Coleg wario mwy o arian, yn gyflymach, ar yr agwedd hon ond y bydd yn disgwyl ailgydbwyso’r tan-fuddsoddiad a gafwyd yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf.[15] Mae’n destun pryder i ni fod y Coleg wedi gorfod cwtogi mor ddifrifol ar ei raglen cynnal-a-chadw ers cymaint o amser. Yr ydym yn disgwyl i’r Coleg wella ffabrig ei ystad mor gyflym â phosibl a chadw llygad barcut ar faterion iechyd a diogelwch tra eir i’r afael â’r dagfa chynnal-a-chadw.

10. Darganfu’r adolygiad o’r Siop Hyfforddiant a wnaed gan archwilwyr mewnol y Coleg ar y pryd ym 1998 gyfres o fethiannau difrifol yn y ffordd yr oedd y Coleg yn rheoli ac yn monitro’r Uned. Er enghraifft, yr oedd y Coleg wedi methu â chynhyrchu unrhyw gynlluniau strategol neu fusnes ar gyfer y Siop Hyfforddiant, ac nid oedd ychwaith wedi pennu unrhyw nodau, amcanion a thargedau ar ei chyfer. Nid oedd ganddo gofnodion o’r staff a oedd yn gweithio i’r Siop Hyfforddiant, a chyfyng iawn oedd gwaith adrodd ffurfiol ar ran y Siop Hyfforddiant naill ai i’r Corff Llywodraethu neu i’r uwch reolwyr. Yn ogystal nid oedd llawer o reoliadau ariannol y Coleg yn ymdrin ag unrhyw rai o

[12] C4
[13] C5
[14] Llythyr oddi wrth y Pennaeth 2 Awst 2000
[15] C5

weithgareddau'r Siop Hyfforddiant a chafwyd nifer o wrthdrawiadau budiannau difrifol posibl o fewn y Siop Hyfforddiant.[16]

11. Dywedodd y Pennaeth presennol wrthym mai symptom o'r methiannau eang mewn rheolaeth a oedd wedi bodoli yn y Coleg oedd y problemau hyn yn ei farn ef. Rhoes sicrwydd i ni fod systemau rheoli ariannol tynn bellach wedi'u sefydlu ar draws y Coleg, mewn ymateb i'r methiannau hyn. Rhaid cyfrif yn awr am yr holl arian a ddaw i law yn y Coleg a rhaid iddo gael ei wario yn briodol. Er enghraifft, ni ellir penodi staff yn awr heb gael cymeradwyaeth ar y lefel briodol.[17]

12. Dywedwyd yn ein hadroddiad ar Addysg Bellach yng Nghymru[18] ei bod yn hanfodol i ddyfodol ffyniant yng Nghymru manteisio i'r eithaf ar statws Amcan 1 ac ar yr arian a fydd yn deillio o'r rhaglen honno. Dywedodd Pennaeth Coleg Gwent wrthym nad oedd y Coleg yn ystod y ddwy i dair blynedd diwethaf wedi chwarae rhan uniongyrchol yn unrhyw un o brojectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Cytunodd y dylai coleg sydd mor fawr a phwysig â Choleg Gwent ymwneud â'r maes gweithgarwch hwn yn enwedig o dan statws Amcan 1. Dywedodd wrthym fod y Coleg yn bwriadu penodi dau berson i helpu i drosglwyddo yn ôl i waith Cronfa Gymdeithasol Ewrop.[19] Dywedodd wrthym hefyd fod yr Adran Addysg a Chyflogaeth wedi cadarnhau ei fod bellach yn fodlon ar weithdrefnau rheoli ariannol a monitro Coleg Gwent ac na fyddai ganddo bryderon pe bai'r Coleg yn gwneud cais am Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop a llwydo yn ei cais.[20]

13. Dywedodd wrthym nad oedd y Coleg ar fin cychwyn ar unrhyw gynlluniau a ariennir gan Amcan 1 er bod ychydig o egin-gynlluniau ar y gweill. Credai'r Pennaeth fod yr argyfwng yn y Coleg wedi peri iddo golli golwg ar rai ystyriaethau strategol ehangach. Er hynny, byddai'r Coleg yn disgwyl adeiladu cynlluniau ar gyfer rhai prosiectau Ewropeaidd i mewn i'w waith cynllunio strategol a sefydliadol ar gyfer y flwyddyn nesaf.[21] Yr ydym yn bryderus iawn nad oes gan y Coleg unrhyw gynigion cadarn i

---

[16] Adroddiad PAC paragraff 12
[17] Cwestiynau 7-8
[18] Adroddiad y Pwyllgor Archwilio 00-03: Addysg Bellach yng Nghymru
[19] C10
[20] Llythyr oddi wrth y Pennaeth 2 Awst 2000
[21] Cwestiynau 19 a 21

ddefnyddio arian Amcan 1. O gofio ei statws fel sefydliad addysg bellach mwyaf Cymru, rhaid i Goleg Gwent weithredu ar fyrder i sicrhau ei fod yn gallu defnyddio'r cyllid sydd ar gael o dan Amcan 1 i'r eithaf.

14. Ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd arian Ewropeaidd i Gymru. Er hynny, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym nad yn ei ddwylo ef y mae'r atebolrwydd am arian Cronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd yng Nghymru ond mai yn yr Adran Addysg a Chyflogaeth y mae'r cyfrifoldeb wedi'i freinio. Nododd, er hynny, ei fod yn atebol am wario arian a dderbynnir o'r Gronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd yng Nghymru.[22] Yr ydym yn nodi, fel rhan o'r Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros wariant Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop i'r Cynulliad. Yr ydym yn disgwyl i'r Cynulliad sefydlu gweithdrefnau priodol a chyflawni'r cyfrifoldeb newydd hwn mewn perthynas â'r angen am reoleidd-dra a phriodoldeb.

## LLYWODRAETHU A RHEOLI'R COLEG

### Llywodraethu

15. Mae'r Corff Llywodraethu a oedd yn bodoli ar y pryd yn y Coleg adeg yr argyfwng wedi cael ei feirniadu yn hallt. Er enghraifft, mae yna ddigon o dystiolaeth ddogfennol na phennodd y Corff Llywodraethu unrhyw fframwaith ar gyfer rhoi'r ailstrwythuro rheoli ar waith, ac nad oedd ganddo ychwaith unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar gyfer monitro cynnydd yr ailstrwythuro. Disgrifiodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus agwedd y Corff Llywodraethu at ddigwyddiadau yn y Coleg fel agwedd hunanfodlon.[23] Ac eithrio un o'r llywodraethwyr staff sydd wedi'i ailethol gan y staff, nid oedd yr un o'r llywodraethwyr sydd bellach yn eu swydd yn y swydd adeg yr argyfwng.[24]

16. Dywedodd y Pennaeth wrthym fod y Corff Llywodraethu wedi newid yn aruthrol ers yr argyfwng. Yr oedd y Corff Llywodraethu wedi ehangu o 13 i 19 o aelodau, ac yn anelu at gael cyfanswm o 21. Cynhwysai hyn ddau aelod cyfetholedig a'r uchafswm a ganiateir o dri aelod staff. Yn ogystal, am fod Coleg Gwent yn gweithredu o fewn

[22] Cwestiynau 11 a 14
[23] Adroddiad PAC paragraff 7 (xii)

pump awdurdod unedol, rhoddwyd caniatâd arbennig i'r Coleg i benodi hyd at bum aelod awdurdod lleol ac mae hyn wedi'i gyflawni bellach.  Yr oedd y Corff Llywodraethu erbyn hyn wedi cynnal archwiliad manwl o sgiliau a oedd wedi nodi'r angen am aelod sydd â chefndir mewn anghenion arbennig yn ogystal â rhywun sydd â chefndir cyfreithiol.  Mae'r ddau benodiad wedi'u gwneud yn ddiweddar.  Yn ogystal, yr oedd yn chwilio am rywun o fyd ffermio.  Yn ei farn yr oedd gan y Corff Llywodraethu bellach gydbwysedd da o sgiliau ac yr oedd yn wyliadwrus iawn..[25]

17. Dywedodd y Pennaeth wrthym hefyd fod y Corff Llywodraethu yng Ngholeg Gwent wedi gwneud defnydd helaeth o'r hyfforddiant a gynigir o dan Raglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli'r Cyngor Cyllido a'i fod  hefyd wedi cynnal llawer o hyfforddiant mewnol.  Yr oedd y Corff Llywodraethu wedi cynnal nosweithiau datblygu llywodraethwyr ac wedi cael sesiynau hyfforddiant gan archwilwyr allanol y Coleg, a'i gyfreithwyr.  Yn ogystal mae pob llywodraethwr newydd bellach yn mynd drwy broses sefydlu sydd wedi'i theilwra i'w hanghenion penodol.[26]  Yr ydym yn croesawu'r newidiadau yng Nghorff Llywodraethu  Coleg Gwent gan gynnwys cynrychiolaeth lawn o bob un o'r awdurdodau lleol perthnasol.  Yr ydym yn croesawu yn arbennig yr archwiliad sgiliau y mae'r Corff Llywodraethu wedi'i wneud a bod y Corff Llywodraethu wedi ehangu i gynnwys y sgiliau ychwanegol a nodwyd yn y broses hon.  Yr ydym yn argymell bod Corff Llywodraethu pob sefydliad yn y sector yn cynnal archwiliad manwl o'i ofynion o ran sgiliau ac anelu at ddiwygio ei aelodaeth yn unol â'r darganfyddiadau.

## Materion rheoli yn y Coleg

18. Ar ddiwedd 1997, rhoes y Corff Llywodraethu nifer o fesurau ar waith a gynlluniwyd i wella sefyllfa ariannol y Coleg cyn gynted â phosibl.[27]  Cynhwysai'r gweithredoedd hyn dynnu yn ôl trefniadau a gytunwyd yn gontractiol a oedd wedi'u negodi gyda'r undebau llafur.  Yn fwyaf arbennig yr oedd hyn yn golygu bod y Coleg yn tynnu yn ôl y "cytundeb llwyth gwaith" bondigrybwyll a oedd wedi'i negodi gan Mrs Parker, y

[24] Adroddiad PAC paragraff 55
[25] C37
[26] C38
[27] Adroddiad C&AG paragraff 1.5

Pennaeth blaenorol, gyda'r undebau llafur yn y Coleg. Rhoes y cytundeb hwn mewn gwirionedd y modd i staff addysgu yn y Coleg adfer enillion effeithlonrwydd disgwyliedig o gontractau newydd a oedd wedi pennu telerau ac amodau penodol i'r staff.[28] Dywedodd y Pennaeth wrthym fod yr undebau llafar wedi teimlo, yn digon dealladwy ar y pryd, eu bod wedi gwneud cytundeb a bod rheolwyr y Coleg yn eu tyb hwy wedi torri'r cytundeb hwnnw. O ganlyniad, ar ddiwedd 1997 yr oedd y staff wedi pleidleisio o blaid cymryd camau diwydiannol ac ni chafodd y sefyllfa ei datrys tan Fehefin eleni.[29] Yr ydym yn falch bod y Coleg wedi llwyddo i negodi diwedd ar yr anghydfod diwydiannol sydd wedi aflonyddu'r Coleg ers diwedd 1997. Er hynny, yn sgil yr anghydfod mae yna deimlad o ddiffyg ymddiriedaeth y bydd angen i reolwyr y Coleg weithio'n galed i'w oresgyn.

19. Un o'r mesurau cynnar eraill a gymerwyd gan y Coleg ym 1997 i wella ei sefyllfa ariannol oedd gwrth-droi'r ail strwythuro rheolaeth o 118 o swyddi yn ôl i lawr i 35 o swyddi.[30] Pan gyrhaeddodd y Pennaeth presennol y Coleg fe nododd fod gan rheolwr cyfadran nodweddiadol hyd at 60 o ddarlithwyr i'w rheoli, o ganlyniad i'r newidiadau, ac nad oedd hyn yn realistig. Yr oedd y Coleg felly wedi cyflwyno haen ganolradd o reolwyr o'r enw penaethiaid adrannau sy'n treulio rhyw ddwy ran o dair o'u hamser yn addysgu ac un rhan o dair yn goruchwylio tîm bach o ddarlithwyr. Yr oedd cynllun busnes wedi'i adolygu i'r perwyl hwn a'i ardystio gan Bwyllgorau Cyllid ac Adnoddau Dynol y Corff Llywodraethu. Y gyllideb a gytunwyd gan y Corff Llywodraethu oedd £256,000, sef yr amcangyfrif o'r cynnydd yn y bil tâl ar gyfer y bobl ychwanegol yr oedd eu hangen i gymryd drosodd yr oriau addysgu yr oedd y penaethiaid adrannau wedi'u haddysgu yn flaenorol.[31]

20. Yr oedd y Pwyllgor Cyllid yn monitro'r penodiadau ac yr oedd rhaid i'r Pennaeth adrodd yn ôl am fanylion cyfanswm y gost gan ategu'r wybodaeth honno gyda rhestr o benodiadau, cyflogau a gwybodaeth arall. Dywedodd y Pennaeth fod y broses wedi dod i mewn o fewn y gyllideb a bod gwaith cyflwyno penaethiaid adran wedi bod yn

[28] Adroddiad C&AG paragraff 2.24
[29] C69
[30] Adroddiad C&AG paragraff 2.17
[31] C80

llwyddiannus hyd yn hyn. Dywedodd fod y Corff Llywodraethu yn ystyried hynny yn enghraifft o broject da yr oedd wedi'i fonitro.[32] Yr ydym yn nodi'r ffordd ofalus y rheolodd y Coleg yr ailwampio diweddaraf ar ei strwythur rheoli ehangach a oedd yn wrthgyferbyniad llwyr i'r ffordd y rheolodd yr ymarfer ailstrwythuro gwreiddiol ym 1996. Yr ydym yn argymell bod sefydliadau eraill yn y sector yn nodi'r ffordd y mae Coleg Gwent wedi rheoli ei ailstrwythuro diweddaraf.

21. Mae Pennaeth y Coleg a'r Cyngor Cyllido'n cyfaddef bod angen i'r Coleg o hyd fynd i'r afael â nifer o broblemau strategol allweddol. Un ffactor o bwys yw'r angen i gynhyrchu data cywir am nifer y myfyrwyr y mae'r Coleg wedi'u cofrestru. Nododd y Pennaeth fod y model ariannu ar gyfer y sector yn awr yn cysylltu arian yn uniongyrchol â myfyrwyr a bod angen data cywir felly am gofrestriadau myfyrwyr. Dywedodd wrthym fod y Coleg wedi bod yn ymdrechu i gynhyrchu data o'r fath ond ychwanegodd mai'r bwriad oedd i'r Coleg fuddsoddi £250,000 mewn system gyfrifiadurol newydd i geisio gwella ei waith o gadw cofnodion. Nododd hefyd fod yr archwiliad allanol diweddaraf o ddata wedi darganfod bod y Coleg mewn gwirionedd yn tan-gofnodi nifer y myfyrwyr y mae wedi'u cofrestru yn hytrach na'u gor-gofnodi. Nid oedd unrhyw awgrym felly fod y Coleg yn hawlio arian nad oedd ganddo hawl i'w gael.[33] Mae'n destun pryder i ni fod y Coleg yn dal i wynebu anawsterau wrth gynhyrchu gwybodaeth reoli am nifer y myfyrwyr y mae'n eu cofrestru. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl am gadarnhad o ateb cynnar i'r broblem hon.

**Asesu a hyfforddi staff**

22. Un o'r pryderon allweddol a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad yw'r angen i bob coleg gael cyfnod prawf a phroses werthuso ffurfiol yn eu lle ar gyfer eu Penaethiaid.[34] Cadarnhaodd Pennaeth Coleg Gwent i ni fod ei benodiad wedi bod yn destun cyfnod prawf a bod ei berfformiad wedi cael ei adolygu hefyd ar ddiwedd ei flwyddyn gyntaf yn y swydd.[35] Yr ydym yn ceisio cadarnhad fod y Pennaeth wedi cael proses werthuso gyflawn ar ddiwedd ei ail flwyddyn yn y swydd.

[32] C80
[33] C82
[34] Adroddiad PAC paragraff 74
[35] C23

23. Dywedodd y Pennaeth hefyd fod Corff Llywodraethu'r Coleg bellach yn mynd ati i lunio gweithdrefn werthuso ffurfiol ar gyfer pob un o'r pedwar deiliad swyddi hŷn yn y Coleg. Bydd y Coleg yn cyflwyno'r system werthuso o dipyn i beth drwy'r Coleg i gyd er i'r Pennaeth bwysleisio y byddai'r broses werthuso hon yn fwy o offeryn datblygol yn hytrach na phroses sy'n g ymwneud â pherfformiad staff yn unig.[36] Mae angen i Goleg Gwent ffurfioli ei broses werthuso ar gyfer ei bedwar deiliad swydd hŷn cyn gynted â phosibl a'i ymestyn i weddill y staff pan fydd hyn yn ymarferol.

24. Cadarnhaodd y Cyngor Cyllido i ni fod y mwyafrif o golegau wedi sefydlu system ar gyfer gwerthuso eu Pennaeth. Dywedodd y Cyngor Cyllido wrthym ym Mai 2000 fod Cymdeithas y Colegau - ffederasiwn cyflogwyr y colegau - wedi cyhoeddi canllawiau ar gontract enghreifftiol a oedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer gwerthuso; ac ar gyfer cyfnodau prawf. Er mai canllawiau yn unig yw'r rhain, nododd y Cyngor Cyllido y byddai'n mynd i'r afael â'r mater hwn yn Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli er mwyn sicrhau bod pob coleg yn gweithredu'r gweithdrefnau hyn.[37] Argymhellwn fod y sector cyfan yn mabwysiadu prosesau gwerthuso ffurfiol ar gyfer deiliaid swyddi hŷn cyn gynted â phosibl.

**RHEOLAETH ARIANNOL Y COLEG**

**Rheolaeth ariannol gyffredinol**

25. Yn ei adroddiad, yr oedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn feirniadol iawn o reolaeth ariannol y Coleg. Yn ogystal â'r methiant llwyr mewn rheolaethau a rheoliadau a danlinellwyd gan y problemau yn y Siop Hyfforddiant,[38] condemniodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y diffyg onestrwydd ac uniondeb yn adroddiadau ariannol y Coleg yn ystod amser yr argyfwng a hynny o ran costau amcangyfrifedig yr ailstrwythuro a sefyllfa ariannol gyffredinol y Coleg.[39] Cofnododd Cofnod y Trysorlys fod y Coleg ers hynny wedi cyflwyno cyfundrefn rheoli ariannol newydd a gwell gweithdrefnau ar gyfer rheoli cyllidebau.[40]

---

[36] Cwestiynau 23 a 24
[37] C26
[38] Adroddiad PAC paragraff 7 (viii)
[39] Adroddiad PAC paragraff 7 (x)
[40] Gorch 4656 paragraff 32

26. Dywedodd y Pennaeth fod y Coleg yn awr yn cynnwys pob rheolwr cyllidebau wrth ddatblygu'r gyllideb flynyddol, a gymeradwywyd yn y pen draw gan y Corff Llywodraethu. Dangosodd adroddiadau rheoli misol manwl y cyfrif incwm a gwariant, rhagolygon llif arian parod a rhagolygon presennol y sefyllfa debygol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gofynnwyd i ddeiliaid cronfeydd gyfrif am yr amrywiadau yn yr adroddiad a darparu cynllun gweithredu ar gyfer mynd i'r afael â'r amrywiadau hynny. Cyfarfu Pwyllgor Cyllid y Corff Llywodraethu i adolygu pob adroddiad rheoli misol.[41] Yr ydym yn cymeradwyo'r prosesau cynhwysfawr ar gyfer pennu a monitro cyllidebau sydd bellach wedi'u mabwysiadu gan Goleg Gwent ac sy'n allweddol i sicrhau llwyddiant ariannol unrhyw sefydliad.

27. Yr oedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd yn feirniadol o fethiant y Coleg yn ystod amser yr argyfwng â chael rhywun ar y tîm rheolwyr hŷn a oedd â chefndir mewn cyfrifon.[42] Cadarnhaodd Pennaeth Coleg Gwent i ni nad oedd gan y Coleg unrhyw gyfrifwyr cymwysedig erbyn Gorffennaf 1998. Cyrhaeddodd y Cyfarwyddwr Cyllid presennol a oedd yn aelod o'r tîm rheolwyr hŷn yn Awst 1998. Yr oedd wedi mynd ati i gryfhau'r Adran Gyllid ac yr oedd gan y Coleg bellach dri chyfrifydd cymwysedig.[43] Nodwn fod y Coleg wedi cydnabod yr angen am niferoedd digonol o staff ariannol â chymwysterau proffesiynol. Credwn ei bod yn hanfodol i bob sefydliad fod â lefel briodol o staff cyllid cymwysedig.

**Caffael nwyddau a gwasanaethau**

28. Yng ngoleuni ein pryderon difrifol am y ffordd y mae'r sector addysg bellach wedi rheoli caffael nwyddau a gwasanaethau, ar sail archwiliadau ledled y sector gan Archwilyddd Cyffredinol Cymru, gofynnwyd sut y mae Coleg Gwent wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Dywedodd y Pennaeth wrthym fod y chwe champws yn y Coleg, yn ystod cyfnod yr argyfwng, wedi cael gwneud eu trefniadau caffael eu hunain. Mewn gwirionedd yr oedd pob campws wedi bod yn prynu ei eitemau i mewn heb unrhyw reolaeth ganolog. O ganlyniad, tua diwedd 1998, yr oedd y Coleg wedi penodi

[41] C30
[42] Adroddiad PAC paragraff 7 (vii)
[43] C31

swyddog pwrcasu er mwyn ceisio cydgysylltu'r polisi prynu canolog. Er hynny, dywedodd y Coleg wrthym ei fod wedi cydnabod yn gyflym nad swydd weinyddol oedd hon ond yn hytrach swydd ar gyfer rheolwr caffael cymwysedig. Yn Ebrill 2000 yr oedd y Coleg wedi penodi rheolwr caffael profiadol.[44]

29. Rhoes y Pennaeth nifer o enghreifftiau i ni o'r arbedion y mae'r Coleg wedi'u gwneud ynghylch caffael. Er enghraifft, drwy ganoli caffael yn y Coleg mae wedi arbed £100,000 ar wariant technoleg gwybodaeth ac arbed 20 y cant ar ei gostau llungopïo. Mae'r Coleg wedi arbed cyfanswm o dros £250,000 wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau yn y flwyddyn bresennol ac mae'n disgwyl gwneud arbedion sylweddol pellach yn y blynyddoedd i ddod.[45] Yr ydym yn nodi'r camau y mae'r Coleg wedi'u cymryd i wella ei ddulliau caffael nwyddau a gwasanaethau, ac yr ydym yn cymeradwyo hyn i'r sector. Yn arbennig llwyddodd y Coleg i ddangos i ni fanteision prynu canolog; a phenodi staff caffael cymwysedig sydd â'r arbenigedd angenrheidiol.

30. Yr oedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd yn feirniadol iawn o'r ffordd yr oedd y Coleg wedi penodi Mr Cyril Lewis ym 1997 fel cynghorydd i gynnig a gweithredu cynllun adfer ar gyfanswm cost o £77,000; a Coopers a Lybrand fel cynghorwyr ariannol, a hynny heb unrhyw fath o gystadlu.[46] Rhoes y Pennaeth sicrwydd i ni na allai'r ffordd yr oedd y penodiadau hyn wedi'u gwneud ddigwydd bellach o dan weithdrefnau presennol y Coleg. Byddai angen cynnal proses dendro ar gyfer unrhyw benodiad o'r fath.[47]

**Gweithredu argymhellion archwilio**

31. Un o'r episodau mwyaf anffodus yn ystod yr argyfwng hwn yng Ngwent oedd methiant y Coleg â gweithredu llawer o'r argymhellion a wnaed gan Wasanaeth Archwilio'r Cynghorau Cyllido ym 1996 ar gyfer gwelliannau yn rheolaeth a rheoliadau ariannol y Coleg. Camarweiniodd y Coleg y Cyngor Cyllido wedyn pan ddywedodd ei fod wedi gweithredu pob un o'r argymhellion ond dau.[48]

---

[44] C74
[45] C74
[46] Adroddiad PAC paragraff 7 (xx)
[47] C71
[48] Adroddiad PAC paragraffau 34 a 35

32. Dywedodd y Pennaeth wrthym fod pob adroddiad archwilio bellach yn cael ei gyflwyno gerbron Pwyllgor Archwilio'r Coleg a oedd yn eu hadolygu a gweithredoedd ac ymatebion y rheolwyr. Yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, mewn cysylltiad â Chlerc y Corff Llywodraethu, yn gweithredu cronfa ddata gyfrifiadurol fach a oedd yn cynnwys pob argymhelliad archwilio, y camau a gynigiwyd a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cwblhau. Yr oedd y Pwyllgor Archwilio yn monitro bod camau yn cael eu cymryd ynghylch pob argymhelliad ac yn gofyn hefyd am dystiolaeth bod y camau wedi'u cymryd. Os oedd materion yn ailddigwydd ar ôl eu dyddiad dyledus yr oedd y Pwyllgor Archwilio yn gofyn am esboniad. Yn ei dro yr oedd y Corff Llywodraethu bellach yn cael adroddiadau rheolaidd oddi wrth y Pwyllgor Archwilio ar y broses hon.[49] Argymhellwn fod Pwyllgor Archwilio pob sefydliad ar draws y sector yn mabwysiadu'r ymagwedd y mae Coleg Gwent wedi'i defnyddio ar gyfer monitro dull gweithredu'r argymhellion a wneir gan yr holl archwilwyr.

## MONITRO ALLANOL Y COLEG A MATERION ATEBOLRWYDD

### Monitro gan y Cyngor Cyllido

33. Gofynnodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus paham yr oedd dulliau monitro'r Cyngor Cyllido o'r Coleg wedi methu ag enwi methiannau sylfaenol y llywodraethu a'r rheoli yn y Coleg. Er enghraifft, gofynnodd y Cyngor Cyfrifon Cyhoeddus sut yr oedd y Pennaeth wedi llwyddo i gelu gwir sefyllfa ariannol y Coleg rhag y Corff Llywodraethu a'r Cyngor Cyllido am amser mor hir.[50]

34. Mae'r Cyngor Cyllido'n monitro iechyd ariannol pob sefydliad deirgwaith y flwyddyn. Ar ôl gwneud gwarged gweithredu sylweddol yn y flwyddyn academaidd 1994-95, erbyn Gorffennaf 1996 yr oedd y Coleg yn rhag-weld y byddai diffyg gweithredu bach ar gyfer 1995-96 a diffyg gweithredu o £750,000 ar gyfer 1996-97. Ar yr un pryd, er hynny, yr oedd Tîm Rheolwyr Hŷn y Coleg yn rhag-weld yn breifat y byddai diffyg gweithredu mawr iawn ar gyfer 1996-97.[51] Er gwaethaf y dirywiad i bob golwg ym mherfformiad ariannol y Coleg parhaodd y Cyngor Cyllido i asesu iechyd ariannol y

[49] Cwestiynau 28 a 29
[50] Adroddiad PAC paragraffau 7 (x) a (xiii)
[51] Adroddiad C&AG's Ffigur 2 ac adroddiad PAC paragraff 22

Coleg fel Boddhaol (y radd uchaf) tan Fawrth 1997 pan wnaeth y Coleg gyfaddef yn y diwedd ei fod yn wynebu diffyg gweithredu mawr iawn ym 1996-97. Adeg hynny newidiodd y Cyngor Cyllido ei gategoreiddiad o iechyd ariannol y Coleg i Ymylol.[52] Yr oedd yn Chwefror 1998 cyn i'r Cyngor Cyllido newid ei asesiad i Anfoddhaol - y radd isaf - cam sydd yn awtomatig yn ysgogi llawer mwy o oruchwylio ar sefydliadau gan y Cyngor Cyllido.[53]

35. Mae'r Cyngor Cyllido yn ddiweddar wedi newid categoreiddiad Gwent o iechyd ariannol yn ôl o Anfoddhaol i Ymylol. Dywedodd Prif Weithredwr newydd y Cyngor Cyllido wrthym ei fod yn bersonol wedi adolygu'r penderfyniad a'i ategu. Yr oedd y penderfyniad wedi'i seilio ar y gwelliant ym mherfformiad gweithredol y Coleg, ei gynnydd mewn cronfeydd cyffredinol, y ffaith bod y Coleg yn dibynnu'n llai ar arian oddi wrth y Cyngor Cyllido a hyder cynyddol y Cyngor Cyllido yng ngallu'r Coleg i ddarogan ei sefyllfa ariannol yn gywir. Credai hefyd, o gofio'r gwelliannau yn systemau rheoli'r Coleg, mai peth gwrthnysig fuasai peidio â newid categoreiddiad y Coleg.[54]

36. Er hynny, dywedodd wrthym hefyd nad oedd yr ailddosbarthiad yn golygu nad oedd pwysau ar y Coleg mwyach. Byddai angen o hyd i'r Coleg ddarparu adroddiadau misol ar ei sefyllfa ariannol a byddai'r Cyngor Cyllido'n parhau i gadw llygad barcut ar y Coleg. Cydnabu fod yna lawer o broblemau o hyd yn y Coleg gan gynnwys y dagfa o waith cynnal-a-chadw, yr angen am raglen gyfalaf cryf a'r atebolrwydd cysylltiedig am arian Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Nododd ymhellach fod angen i'r Coleg wella ei gynllunio strategol a gallu cynhyrchu data dibynadwy am niferoedd myfyrwyr.[55] Yng ngoleuni'r gwaith y mae'n rhaid i'r Coleg ei wneud o hyd mewn nifer o feysydd allweddol megis cynllunio strategol, yr ydym yn synnu at benderfyniad y Cyngor Cyllido i ailgategoreiddio iechyd ariannol y Coleg. Yr ydym yn annog y Cyngor Cyllido i barhau i gadw llygad barcut ar y Coleg.

**Atebolrwydd unigolion a chyrff**

[52] Adroddiad PAC paragraff 32
[53] Adroddiad C&AG's paragraff 5.8
[54] C50
[55] Cwestiynau 50 a 51

37. Yr ydym yn pryderu am y gallu i ddal unigolion a chyrff i gyfrif lle bynnag y ceir esgeulustod yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Adeg yr argyfwng yng Ngwent, yr unig bŵer a oedd gan y Cyngor Cyllido i weithredu yn uniongyrchol yn erbyn y Coleg oedd dal arian grant yn ôl neu ei ad-hawlio. Yng ngoleuni'r anawsterau a oedd yn wynebu Gwent ar y pryd credai'r Cyngor Cyllido na fuasai'n briodol cymryd y cam hwn ar y pryd.[56]

38. Gwnaeth y Cyngor Llywodraethu setliad ariannol ffafriol i Mrs Parker pan ymddiswyddodd fel Pennaeth yng Ngorffennaf 1996. Dywedodd Prif Weithredwr y Cyngor Cyllido wrthym fod gan Gyrff Llywodraethu bwerau bellach i atal unigolyn, hyd yn oed heb dâl os oedd angen, neu hyd yn oed i'w diswyddo yn ddi-oed. Mynegodd y farn mai ei obaith oedd na fyddai Cyrff Llywodraethu yn meddwl ddwywaith cyn defnyddio'r pwerau hynny, pe ceid sefyllfa debyg yn y dyfodol. Ychwanegodd y byddai'n gwneud ei orau glas i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â materion.[57] Fel ein cydweithwyr ar y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'n rhwystredigaeth i ni nad oes unrhyw unigolyn na chorff wedi wynebu cosb uniongyrchol na chamau disgyblu o ganlyniad i'r digwyddiadau a welwyd yng Ngholeg Gwent. Mae'r sicrwydd a roddwyd gan Brif Weithredwr y Cyngor Cyllido y byddai gan y Corff Llywodraethu o dan sylw fwy o bwerau i weithredu yn erbyn yr unigolion o dan sylw pe bai methiannau tebyg yn digwydd yn y sector yn awr, o ryw gysur i ni. Argymhellwn fod pob Corff Llywodraethu'n nodi'r pwerau sydd ar gael iddynt bellach i ddal unigolion sydd wedi bod yn esgeulus i gyfrif, a'u defnyddio yn ôl yr angen.

**Archwilio Allanol**

39. Deloitte a Touche oedd archwilwyr allanol y Coleg adeg yr argyfwng. Adroddodd PAC fod Gwasanaeth Archwilio'r Cyngor Cyllido wedi darganfod nad oedd yr archwilwyr allanol, fel rhan o'u harchwiliad o ddatganiadau ariannol y Coleg, wedi ymgymryd ag unrhyw waith profi manwl ar drafodion i gofnodion sylfaenol i gadarnhau bod y cronfeydd a ddaeth i law yn y Coleg, gan gynnwys arian Ewropeaidd, wedi'u

[56] Cwestiynau 56 a 67
[57] Cwestiynau 67 a 68

defnyddio at y dibenion a ddarparwyd. Nododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus hefyd fod y Coleg yn ceisio iawndal oddi wrth Deloitte a Touche.[58]

40. Dywedodd y Coleg wrthym ei fod yn wyliadwrus iawn ar y mater hwn. Yn awr bod manylion terfynol maint y swm sydd i'w dalu yn ôl i'r Undeb Ewropeaidd wedi'u pennu, a graddoli'r swm hwnnw, byddai'r Coleg yn cymryd cyngor cyfreithiol ynghylch a ddylai weithredu yn erbyn cyrff neu yn wir unigolion. Nododd y Pennaeth fod y cyngor cyfreithiol cynnar a gawsai'r Coleg wedi dangos y byddai angen iddo ddangos ei fod wedi dioddef colled sylweddol o ganlyniad i weithredoedd Deloitte a Touche. Gyda golwg ar ddiogelu arian y cyhoedd, nododd mai peth drud iawn fyddai cymryd camau cyfreithiol yn erbyn corff mawr megis Deloitte a Touche. Byddai cymryd camau o'r fath felly yn gofyn am farn ofalus ar ran y Corff Llywodraethu. Er hynny, rhoes sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r Coleg yn cymryd pa gamau bynnag y gallai eu cymryd yn erbyn Deloitte a Touche er mwyn unioni'r cam, a hynny o fewn cyfyngiadau'r cyngor cyfreithiol a gafodd.[59] Yr ydym yn annog y Coleg i fynd ar drywydd y mater hwn yn weithgar.

41. Mae'r Cyngor Cyllido wedi cadarnhau ers hynny mai Deloitte a Touche yw archwilwyr mewnol pedwar sefydliad addysg bellach yng Nghymru ac archwilwyr allanol mewn saith sefydliad arall ar hyn o bryd, ac mae hyn yn golygu bod ganddynt ran ym mwy nag un rhan o dair o golegau'r sector.[60] Dywedodd y Cyngor Cyllido wrthym ei fod yn parhau i weithio yn agos gyda Swyddfa Deloitte a Touche ym Mryste er mwyn monitro gwaith y cwmni yng Nghymru - gan nad yw Swyddfa Caerdydd bellach yn gyfrifol am y gwaith hwn. Dywedodd y Cyngor Cyllido wrthym ei fod wedi gwneud ei ddisgwyliadau yn glir i Deloitte a Touche.[61] Yr ydym yn argymell y dylai'r Cyngor Cyllido adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rheolaidd ar ganlyniadau monitro gwaith Deloitte a Touche yng Nghymru.

42. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod y Cynulliad wedi ysgrifennu at y Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr i ofyn a oedd unrhyw gamau yr

---

[58] Adroddiad PAC paragraff 7 (xvi)
[59] Cwestiynau 55 a 56
[60] Llythyr oddi wrth y Cyngor Cyllido i'r Pwyllgor 5 Gorffennaf 2000
[61] C57

oedd angen i'r Sefydliad eu cymryd mewn perthynas ag ansawdd gwaith Deloitte a Touche yng Ngholeg Gwent. Yr oedd y Sefydliad wedi cyfeirio'r llythyr hwn at ei Swyddfa Safonau Proffesiynol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym hefyd fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi ysgrifennu at holl Brif Weithredwr cyrff cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y sylwadau a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch digonedd gwaith Deloitte a Touche.[62] Yr ydym un nodi bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi codi'r mater hwn ynghylch Deloitte a Touche fel hyn ac yr ydym yn disgwyl ei ganlyniad gyda diddordeb.

43. Yr ydym yn credu hefyd, o gofio ein cylch gwaith o graffu ar wariant cyhoeddus gan y Cynulliad a'r cyrff a noddir ganddo, ac o gofio dyfodiad Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ei bod yn hen bryd adolygu a chryfhau'r trefniadau archwilio ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Penodir Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ôl statud fel archwilydd allanol y Cyngor newydd. Penodir archwilwyr allanol sefydliadau addysg bellach gan eu Cyrff Llywodraethu eu hunain ac maent yn adrodd iddynt. Ar hyn o bryd, pe bai'r Archwilydd Cyffredinol yn dymuno adrodd i'r Cynulliad ar fater sy'n ymwneud â sefydliad penodol, byddai angen iddo archwilio llyfrau a chofnodion y sefydliad hwnnw neu ddibynnu ar waith yr archwilwyr allanol sydd wedi'u penodi a Gwasanaeth Archwilio'r Cynghorau Cyllido eu hunain. Er hynny, nid yw'r trefniadau hyn yn cynnig ffordd systematig o fonitro cysondeb safonau archwilio allanol ar draws y sector. Yr ydym yn gweld bod yna gryn deilyngdod mewn penodi'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol pob sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu, fel arall, ei wneud yn gyfrifol am benodiadau archwilio allanol o'r fath a thrwy hynny ei alluogi i oruchwylio cysondeb safonau archwilio ar draws y sector. Mae Senedd yr Alban eisoes wedi darparu i Archwilydd Cyffredinol yr Alban gael ei benodi fel archwilydd allanol sefydliadau addysg bellach yn yr Alban; ac mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i benodi'r Rheolydd a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol sefydliadau addysg bellach Lloegr. Byddai cam o'r fath yn cryfhau'r trefniadau archwilio cyhoeddus yng Nghymru ac yn caniatáu i Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Pwyllgor Archwilio ymgymryd â'n priod

---

[62] C60

swyddogaethau mewn perthynas â'r maes pwysig hwn o wariant cyhoeddus yn fwy effeithiol.

## RHAI O'R OBLYGIADAU EHANGACH AR GYFER Y SECTOR ADDYSG BELLACH YNG NGHYMRU YN SGIL Y DIGWYDDIADAU YNG NGHOLEG GWENT

### Fframwaith gweinyddol y sector Addysg Bellach yng Nghymru

44. Bu i ni ystyried y cwestiwn sylfaenol - yn enwedig yng ngoleuni'r digwyddiadau yng Ngholeg Gwent - ai cael sefydliadau addysg bellach fel corfforaethau hunan-lywodraethu annibynnol yw'r model mwyaf priodol ar gyfer y sector. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym mai'r ymagwedd a arddelid pan sefydlwyd sefydliadau addysg bellach fel cyrff hunan-lywodraethu annibynnol oedd y dylai fod gan y Swyddfa Gymreig ymagwedd hyd braich at eu goruchwylio a'u llywodraethu. Y bwriad oedd sefydlu sefydliadau addysg bellach fel cyrff cryf ac annibynnol gyda chynrychiolaeth o du busnesau lleol a chymunedau lleol ac nid mater i'r sector cyhoeddus oedd eu sgil-feirniadu.[63]

45. Yng ngoleuni'r digwyddiadau yng Ngholeg Gwent ac mewn mannau eraill, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn derbyn e bod wedi dod i'r amlwg nad oedd y rhagdybiaeth hon wedi bod yn gywir. Gyda mantais ôl-ddoethineb, yr oedd y gweithdrefnau a'r systemau a oedd wedi'u sefydlu ar gyfer creu'r cyrff hyn ym 1993 wedi bod yn annigonol i ymdrin â'r math o ddigwyddiadau a gafwyd yng Ngholeg Gwent - naill ai i'w hatal neu, ar ôl iddynt ddigwydd, i dynnu sylw atynt yn gyflym a'u rheoli.[64] Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Weithredwr y Cyngor Cyllido, er hynny, mai gwneud i'r model presennol weithio hyd eithaf eu gallu oedd eu swyddogaeth hwy.[65] Nodwn hefyd farn Archwilydd Cyffredinol Cymru fod ei brofiad o archwilio nifer mawr o sefydliadau wedi dangos nad yw'r rhyddidau sydd wedi'u

[63] C16
[64] Cwestiynau 16 a 17
[65] Cwestiynau 47 a 90

rhoi i Gyrff Llywodraethu ledled y wlad - nid yng Nghymru yn unig - wedi cael systemau a gweithdrefnau priodol yn gefn iddynt.[66]

46. Mae'r Pwyllgor hwn o'r farn bod y digwyddiadau yng Ngholeg Gwent wedi codi cwestiynau sylfaenol ynghylch fframwaith gweinyddol presennol y sector addysg bellach. Argymhellwn fod Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol - Oes, gan ymgynghori â'r Pwyllgor Pwnc cyfatebol, archwilio a yw'r model a sefydlwyd ar gyfer y sector addysg bellach o golegau fel cyrff hunan-lywodraethu annibynnol yn dal yn briodol.

**Materion llywodraethu**

47. Bu i ni ofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol ddweud wrthym, yng ngoleuni'r pwys sy'n cael ei rhoi ar y Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli, sut yr oedd yn bwriadu asesu effeithiolrwydd y rhaglen honno. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn credu y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn asesu'r Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli yn bennaf drwy'r datganiad sicrwydd ansawdd ar lywodraethu mewn sefydliadau yr oedd y Cyngor Cyllido i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol bob Mehefin.[67]

48. Dywedodd y Cyngor Cyllido wrthym, ar sail ei asesiad diweddaraf o safbwynt y Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli, fod ganddo bryderon am y ffordd y mae Cyrff Llywodraethu yn gweithredu yn chwech o 27 sefydliad y sector. Rhoesant sicrwydd i ni y byddent yn canolbwyntio eu hymdrechion yn ail gam y Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli ar y sefydliadau hynny. Yr oedd y Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli yn dal yn rhan allweddol o oruchwyliaeth y Cyngor Cyllido ar y sector.[68] Byddem yn croesawu gwybodaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol maes o law ar y canlyniadau a gyflawnwyd o ran un o'r Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli a'r prif nodau, amcanion a thargedau sydd wedi'u pennu ar gyfer y rhan nesaf hon o'r rhaglen.

[66] Q92
[67] C89
[68] C49

49. O gofio pryderon difrifol y Pwyllgor ynghylch cyflwr presennol y llywodraethu yn y sector, y bu i ni danlinellu rhai ohonynt yn ein hadroddiad blaenorol ar Addysg Bellach yng Nghymru [adroddiad y Pwyllgor Archwilio 00-03], bu i ni ofyn i'r Cyngor Cyllido beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch mater yr Arweiniad diwygiedig newydd i Lywodraethwyr. Dywedodd y Cyngor Cyllido wrthym y câi'r Arweiniad diwygiedig ei gyhoeddi o'r diwedd yn ystod yr haf ac y byddai ystod o ddeunyddiau hyfforddi defnyddiol a chydnaws â'r defnyddiwr ynghlwm wrtho.[69] Mae'n siom i ni nad yw'r deunydd hwn wedi bod ar gael o'r blaen. Cydnabu'r Cyngor Cyllido, er hynny, nad oedd cyhoeddi deunyddiau hyfforddi o'r fath ynddo'i hun yn golygu bod gwaith y Cyngor wedi'i wneud a bod ganddo gyfrifoldeb parhaus yn y maes hwn. Yr oedd yn ceisio sicrhau, drwy'r Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli yn bennaf, fod arferion gorau ar gael i'r holl Gyrff Llywodraethu ac mai maes lle byddai'n disgwyl gweithio mewn partneriaeth agos â sefydliadau oedd hyn.[70]

**Materion eraill**

50. Yng ngoleuni'r digwyddiadau yn y Siop Hyfforddiant, uned a oedd â chylch gwaith entrepreneuraidd arbennig, bu i ni ofyn pa ganllawiau y mae'r Cyngor Cyllido wedi'u cynhyrchu er mwyn sicrhau bod gan Golegau oruchwyliaeth ddigonol ar unedau o'r fath a pha waith monitro y mae'r Cyngor Cyllido yn ei wneud. Dywedodd y Cyngor Cyllido wrthym ei fod yn monitro unedau sydd â chylch gwaith entrepreneuraidd fel rhan o'u gwaith monitro cyffredinol ar systemau rheoli. Ymgorfforwyd y gwaith hwn yn Rhaglen Archwilio'r Gwasanaeth Archwilio ac nid oedd yn ei farn ef yn gofyn am ymateb penodol unwaith ac am byth.[71] Ym marn y Pwyllgor hwn, gwnaed saga Siop Hyfforddiant y Coleg yn waeth gan natur anghyffredin ac entrepreneuraidd ei gylch gwaith a'i arferion gwaith. Er gwaethaf y sicrwydd a roddwyd gan y Cyngor Cyllido nad oes angen i unedau o'r fath fod yn destun ond yr un gwaith monitro ag unrhyw rannau eraill o sefydliadau yr ydym o'r farn ei bod yn hanfodol i bob uned a chwmni masnachu a weithredir gan Golegau gael ei reoleiddio a'i fonitro yn drylwyr gan y Cyngor Cyllido. Argymhellwn y dylai'r Cyngor Cyllido sefydlu cofrestr o'r holl uned

---

[69] C43
[70] C49
[71] C85

sydd â chylch gwaith entrepreneuraidd a chwmnïau ym mhob sefydliad a monitro eu gweithgareddau gan ddefnyddio archwilio mewnol.

51. Yn olaf, yng ngoleuni'r digwyddiadau yng Ngwent bu i ni ofyn cadarnhad bod pob sefydliad yn y sector bellach wedi sefydlu polisi ar gyfer achwyn. Cadarnhaodd y Cyngor Cyllido fod gan bob sefydliad system er bod y polisi yn disgwyl cael ei gymeradwyo yn ffurfiol mewn nifer o sefydliadau. Cadarnhaodd y Cyngor Cyllido hefyd fod yr holl systemau hyn yn cydymffurfio â'r arferion gorau.[72] Cadarnhaodd Pennaeth Coleg Gwent fod gan ei goleg weithdrefn gymeradwy ar gyfer achwyn a'i fod wrthi'n trafod y weithdrefn honno gyda'r undebau llafur. Nododd, er hynny, mai dogfen ddyrys, a chyfreithlyd ei naws oedd gweithdrefn achwyn y Coleg a bod y Coleg yn ceisio cynhyrchu arweiniad cyfeillgar ar gyfer y staff at y weithdrefn achwyn.[73] Argymhellwn y dylai pob sefydliad sicrhau bod ganddo arweiniad defnyddwyr i helpu'r staff i ddeall sut y mae eu polisi achwyn yn gweithredu.

## ARGYMHELLION

52. Yng ngoleuni'r darganfyddiadau a'r casgliadau hyn yr ydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:

### Iechyd Ariannol Coleg Gwent a Materion Ariannu Ewropeaidd

(i) Yr ydym yn disgwyl i'r Coleg gynnal ei sefyllfa arianni drwy barhau i fod yn wyliadwrus yn ei reolaeth ariannol.

(ii) Yr ydym yn disgwyl i'r Coleg wella ffabrig ei ystad mor gyflym â phosibl a chadw llygad barcut ar faterion iechyd a diogelwch tra eir i'r afael â'r dagfa o waith cynna-a-chadw.

(iii) O gofio ei sefyllfa fel y sefydliad addysg bellach mwyaf yng Nghymru, rhaid i Goleg Gwent weithredu ar fyrder er mwyn sicrhau y gall fanteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael o dan Amcan 1.

[72] C87
[73] C88

(iv) Yr ydym yn disgwyl i'r Cynulliad sefydlu gweithdrefnau priodol ar gyfer goruchwylio Cronfeydd Cymdeithasol Ewrop a dderbynnir yng Nghymru ac i gyflawni'r cyfrifoldeb newydd hwn mewn perthynas â'r angen am reolaidd-dra a phriodoldeb.

**Llywodraethu a Rheoli**

(v) Argymhellwn fod Corff Llywodraethu pob sefydliad yn y sector yn ymgymryd ag archwiliad manwl o'i ofynion o ran sgiliau mynd ati i ddiwygio ei aelodaeth yn unol â'r darganfyddiadau.

(vi) Argymhellwn fod sefydliadau eraill yn y sector yn nodi'r ffordd y mae Coleg Gwent wedi rheoli ei ailstrwythuro diweddaraf.

(vii) Mae'n destun pryder i ni fod y Coleg yn dal i wynebu anawsterau wrth gynhyrchu gwybodaeth reoli am nifer y myfyrwyr y mae'n eu cofrestru. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cael cadarnhad o ateb cynnar i'r broblem hon.

(viii) Ceisiwn gadarnhad i'r Pennaeth fod yn destun proses werthuso gyflawn ar ddiwedd ei ail flwyddyn yn y swydd.

(ix) Mae angen i Goleg Gwent ffurfioli ei broses werthuso ar gyfer ei bedwar deiliad swydd hŷn cyn gynted â phosibl a'i hymestyn i weddill y staff pan fydd hyn yn ymarferol.

(x) Argymhellwn y dylai'r holl sector fabwysiadu prosesau gwerthuso ffurfiol ar gyfer deiliaid swyddi hŷn cyn gynted â phosibl.

**Rheoli Ariannol**

(xi) Credwn ei bod yn hanfodol i bob sefydliad fod â lefel briodol o staff cyllid cymwysedig.

(xii) Argymhellwn fod Pwyllgorau Archwilio pob sefydliad ar draws y sector yn mabwysiadu'r ymagwedd y mae Coleg Gwent wedi'i harddel ar gyfer monitro gweithredu'r argymhellion a wnaed gan yr holl archwilwyr.

**Monitro Allanol a Materion Cyfrifo**

(xiii) Yng ngoleuni'r gwaith y mae'r Coleg heb ei wneud eto mewn nifer o feysydd allweddol megis cynllunio strategol, yr ydym yn synnu at benderfyniad y Cyngor Cyllido i

ailgategoreiddio iechyd ariannol y Coleg. Hoffem annog y Cyngor Cyllido i gadw llygad barcut ar y Coleg.

(xiv) Argymhellwn fod pob Corff Llywodraethu'n nodi'r pwerau sydd ar gael iddynt bellach i ddal unigolion sydd wedi bod yn esgeulus i gyfrif, a defnyddio'r pwerau hynny yn ôl yr angen.

(xv) Yr ydym yn annog y Coleg i fynd ati o ddofrif i gymryd camau cyfreithiol cost-effeithiol yn erbyn Deloitte a Touche.

(xvi) Credwn ei bod yn amserol adolygu a chryfhau'r trefniadau archwilio ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Credwn fod cryn deilyngdod mewn penodi Archwilydd Cyffredinol i Gymru fel archwilydd allanol pob sefydliad addysg bellach yng Nghymru neu, fel arall, ei wneud yn gyfrifol am benodiadau archwilio mewnol o'r fath a thrwy hynny ei alluogi i oruchwylio cysondeb safonau archwilio ar draws y sector.

**Goblygiadau ehangach ar gyfer y Sector Addysg Bellach**

(xvii) Argymhellwn y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol-Oes, gan ymgynghori â'r Pwyllgor Pwnc cyfatebol, archwilio a yw'r model a sefydlwyd ar gyfer y sector addysg bellach o golegau fel cyrff hunan-lywodraethu annibynnol yn dal yn briodol.

(xviii) Byddem yn croesawu gwybodaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol maes o law ar y canlyniadau a gyflawnwyd o ran un o'r Rhaglen Datblygu Llywodraethu a Rheoli a'r prif nodau, amcanion a thargedau a bennwyd ar gyfer y rhan nesaf o'r rhaglen hon.

(xix) Argymhellwn y dylai'r Cyngor Cyllido sefydlu cofrestr o bob uned sydd â chylch gwaith entrepreneuraidd a dylai cwmnïau ym mhob sefydliad fonitro eu gweithgareddau gan ddefnyddio archwilio mewnol.

(xx) Argymhellwn y dylai pob sefydliad sicrhau bod ganddo arweiniad ar gyfer defnyddwyr i helpu'r staff i ddeall sut y mae eu polisi achwyn yn gweithredu.

(xi) Oherwydd perthnasedd ehangach y digwyddiadau yng Ngholeg Gwent, argymhellwn y dylai'r Cyngor Cyllido drefnu i'r adroddiad hwn gael ei ystyried gan bob coleg AB yng Nghymru.

**SYLWADAU I GLOI**

53. Yr ydym yn falch y gall Coleg Gwent fynd ati yn awr i gynllunio gyda mwy o sicrwydd at y dyfodol yn awr ei fod wedi setlio mater yr ad-daliad y bydd rhaid iddo ei wneud i'r Undeb Ewropeaidd o'r cronfeydd a gafodd oddi wrth Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Er ein bod yn croesawu'r ffaith bod y Coleg wedi llwyddo i adfer y sefyllfa ariannol, yr ydym yn ymwybodol bod rhaid mesur cynnydd o safbwynt gallu'r Coleg i ymdopi â gofid yr ad-daliad hwn. Dylai'r digwyddiadau yng Ngwent fod yn rhybudd pwysig i bob sefydliad ar y pris aruthrol y mae rhaid ei dalu am fethu â rheoli sefydliad yn briodol a'r effaith ganlyniadol ar fyfyrwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

54. Fel y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o'n blaen, mae'n rhwystredigaeth fawr i ni nad oes unrhyw unigolyn wedi'i ddal i gyfrif am y digwyddiadau yng Ngwent. Credwn fod hyn yn anfon y neges anghywir at bawb sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac at y trethdalwyr sy'n disgwyl i'w harian gael ei ddefnyddio yn y ffordd orau posibl. Yr ydym yn annog y Coleg i ystyried ei sefyllfa mewn perthynas â gwaith Deloitte a Touche fel cyn archwilwyr allanol y Coleg yn ofalus iawn. Er ein bod yn cydnabod yn llawn fod rhaid i'r Coleg ddiogelu arian cyhoeddus, yr ydym yn annog y Coleg i ystyried yr holl ddewisiadau posibl ar gyfer cymryd camau cost-effeithiol yn erbyn Deloitte a Touche er mwyn sicrhau unioni'r cam.

55. Yng ngoleuni'r digwyddiadau yng Ngwent mae'r Pwyllgor hwn yn credu ei bod yn bryd mabwysiadu ymagwedd fwy cyson a chryf ar gyfer archwilio allanol y sector addysg bellach yng Nghymru. Byddai Penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru yn archwilydd allanol ar bob sefydliad neu, fel arall, ei wneud yn gyfrifol am benodiadau o'r fath er mwyn ei alluogi i oruchwylio safon archwilio allanol, yn gwella atebolrwydd i'r Cynulliad i raddau helaeth ac yn darparu'r cysondeb y mae galw mawr amdano ar draws y sector. Yr ydym, felly, yn annog y Cynulliad i ailystyried y trefniadau archwilio ar gyfer y sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.

***56. Er gwaethaf cyraeddiadau'r sector addysg bellach ers iddo gael ei ymgorffori ym 1993, credwn fod y digwyddiadau yng Ngwent yn rhoi rhybudd buddiol am ddiffygion sylfaenol y ffordd y mae'r sector addysg bellach wedi'i strwythuro. Hoffem***

***felly dynnu Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol - Oes a'r Pwyllgor Pwnc cyfatebol at ein pryderon ynghylch y ffordd y mae'r model presennol ar gyfer ariannu, goruchwylio ac atebolrwydd y sector addysg bellach yng Nghymru yn gweithredu. Mae angen cydbwyso rhyddidau ar gyfer Cyrff Llywodraethu yn erbyn yr angen am systemau a gweithdrefnau priodol.***

# ATODIAD A

*Ceir cofnod dwythieithog o drafnodion y pwllgorau yn fersiwn Saesneg yr adroddiad (Atodiad A).*

# ATODIAD B

Llythyr oddiwrth David Mason, Prif Weithredwr Coleg Gwent

Dyddiad:2 Awst 2000

Nid oes cyfieithiad ar gael.  Cyfeirych at y fersiwn Saesneg os gwelwch yn dda, (mewn copi caled yn unig).

# ATODIAD C

Nid yw'e cyfieithiad Cymreag ar gael ar hyn o bryd. Gweler y fersiwn Saesneg

# ATODIAD Ch

***Y PWYLLGOR ARCHWILIO***

*Mae pwyllgor Archwilio'r Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n gywir ac yn drylwyr*. Yn fras, rôl y Pwyllgor Archwilio fydd yw ymchwilio i'r adroddiadau ar gyfrifon y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill a baratowyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ac ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ymchwiliadau i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni ei swyddogaethau. Nodir cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn fanwl yn Rheol Sefydlog 12.

**Dyma aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd ar 9 Tachwedd 2000:**

Janet Davies (Plaid Cymru) - Cadeirydd
Alan Cairns (Ceidwadwr)
Jocelyn Davies (Plaid Cymru)
Alison Halford (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Peter Law (Llafur)
Lynne Neagle (Llafur)
Dafydd Wigley (Plaid Cymru)

Kirsty Williams (Democrat Rhyddfrydol)

**Gellir cael gwybodaeth bellach am y Pwyllgor gan:**

Julie Bragg
Clerc y Pwyllgor Archwilio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 02920 898026
E-bost: audit.comm@wales.gsi.gov.uk